

Bwletin yr Awdurdod Mai 2000

Mae'r Bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes mwyaf diweddar yr Awdurdod, a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2000.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

Adroddwyd bod gwobr 'Buddsoddwyr Mewn Pobl' wedi ei dyfarnu i S4C a chadarnhawyd mai'r Sianel oedd y darlledwr teledu cyntaf ym Mhrydain i ennill y wobr. Buddsoddwyr Mewn Pobl yw'r safon genedlaethol a ddefnyddir i fesur lefelau ymarferion da ar gyfer gwella perfformiad sefydliad trwy ei weithlu. Llongyfarchodd Aelodau'r Awdurdod holl aelodau staff S4C ar eu llwyddiant a oeddynt oll wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau y gwelliannau angenrheidiol i deilyngu ennill y wobr hon. Cadarnhawyd bod y Gwir Anrhydeddus, Chris Smith, AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno'r wobr yn S4C ar 5 Mai 2000.

Cyfarfod rhwng Awdurdod S4C a Theledwyr Annibynnol Cymru (TAC)

Adolygodd yr Awdurdod ei gyfarfod y noson gynt yng nghanolfan S4C yn Llanisien, Caerdydd, gydag aelodau Cyngor TAC. Credodd yr Awdurdod bod y cyfarfod wedi bod yn werthfawr iawn. Rhoddodd gyfle i'r Awdurdod glywed yn uniongyrchol rhai o bryderon y cwmnïau annibynnol ac yn ei dro cafodd yr Awdurdod y cyfle i esbonio ei strategaeth a'r hyn oedd mewn golwg ganddo ar gyfer y dyfodol. Roedd yr Awdurdod yn gytûn bod angen sicrhau bod seminarau tebyg i'r un a gynhaliwyd yng Ngregynog ar gyfer yr holl gwmnïau annibynnol yn ôl ym mis Mawrth yn digwydd yn flynyddol. Roedd yn amlwg fod hwn wedi bod yn fforwm da er mwyn i swyddogion S4C fedru esbonio cynlluniau'r Sianel ac i wahodd TAC a'r cwmnïau annibynnol i gynig sylwadau a chyfrannu syniadau eu hunain ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol. Cytunodd yr Awdurdod hefyd ei fod yr un mor bwysig i Aelodau S4C gyfarfod gyda Chyngor TAC yn flynyddol er mwyn datblygu'r fath drafodaethau ar lefel strategol.

Lawns Apêl Elusen S4C

Nododd yr Awdurdod bod yr apêl ar gyfer elusen S4C eleni, sef yr NSPCC, bellach wedi'i lansio yn ystod rhaglen *Heno*, a ddarlledwyd ar 10 Ebrill 2000. Hefyd, tynnwyd sylw at y ffaith bod Shelter Cymru wedi dangos y fideo a gynhyrchwyd trwy drefn elusenol S4C yn ystod lawns a gynhaliwyd ganddynt ar 19 Ebrill 2000; fe wnaethant leisio ei gwerthfawrogiad ar y noson drwy sôn pa mor ddefnyddiol a gwerthfawr yr oedd fideos o'r fath iddynt.

Defnydd o'r Saesneg mewn Rhaglenni Cymraeg

Cyfeiriwyd at y ffaith fod sylw manwl wedi ei roi o'r newydd gan swyddogion S4C i'r defnydd o'r Saesneg yn rhaglenni Cymraeg S4C yn sgil canlyniadau bras cymal cyntaf dadansoddiad a dderbyniwyd trwy law y Grwp Cydymffurfiaeth. Er mwyn sicrhau fod modd rhagweld y sefyllfa ieithyddol yn ei chrynswth ar unrhyw noson o'r wythnos, sefydlwyd proses o adolygu canolog ar sail gwybodaeth a ddaw i feddiant y comisiynwyr am raglenni unigol. Bydd adroddiad llawn y Grwp Cydymffurfiaeth yn cael ei dderbyn ym mis Gorffennaf.

Gwr y Gwyrthiau/The Miracle Maker

Adroddwyd r hanes diweddaraf am lwyddiant y ffilm. Roedd bellach wedi ei dangos mewn dros gant o sinemâu ar hyd a lled Prydain. Nodwyd bod y ffilm wedi'i chrybwyll yn wresog yn anerchiad Archesgob Caergaint ar Sul y Blodau.

Yn ychwanegol roedd yr ystadegau yn dilyn dangosiad *The Miracle Maker* ar deledu ABC yn yr Unol Daleithiau ddydd Sul y Pasg yn dda dros ben, sef:

- Nifer o wylwyr: 15 miliwn
- Safle'r ffilm ar gyfer yr oedran 18-49 ar draws yr Unol Daleithiau: 1^{af}
- Safle'r ffilm ar gyfer holl wylwyr ar draws yr Unol Daleithiau: 2^{ail}
- Nifer o e-byst a dderbyniwyd gan ABC yn dilyn y darllediad: 1,000 (fel cymhariaeth y nifer a dderbynnir fel arfer yw 20-30)
- Safle ar restr archebion DVD Amazon: 5^{ed}

Roedd ABC yn hapus dros ben gyda'r ymateb i'r ffilm ac roeddynt bellach yn sôn am eu dymuniad i'w dangos yn flynyddol.

Nawdd

Derbyniodd yr Awdurdod adroddiad ar geisiadau am nawdd oddi wrth dri chorff. Ar ôl ystyried a thrafod yn fanwl tri chais, penderfynodd yr Awdurdod y dylid rhoi nawdd fel a ganlyn:

- Cwrs Drama Ieuenctid Cymru - £2,000
- Cwmni Opera Canolbarth Cymru - £5,000
- Cymru yn Cannes - £3,000.

Tendr Monitro Gwasanaeth Rhaglenni S4C

Awdurdod S4C yw'r corff rheoleiddio ar gyfer S4C, a rhaid iddi sicrhau bod y gwasanaeth rhaglenni yn cydymffurfio â'r codau rheoleiddio perthnasol a gofynion statudol eraill a osodir gan y Deddfau Darlledu. Rai blynyddoedd yn ôl, sefydlodd yr Awdurdod drefn lle mae'r gwaith beunyddiol o arolygu rhaglenni Cymraeg S4C (a'r ystyriaeth o agweddau cydymffurfiaeth sy'n codi o ail-amseru rhaglenni Channel 4 ar S4C ar analog) yn cael ei roi allan i dendr. Gan y byddai'r cytundeb presennol yn dod i ben ar ddiwedd Awst 2000 rhaid oedd tendro unwaith eto ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth monitro am y tair blynedd nesaf. Sefydlwyd Panel, a gadeiriwyd gan yr Aelod Janet Lewis-Jones, i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol ac adroddwyd ar ganlyniad y broses honno.

Derbyniwyd dau gais mewn ymateb i'r hysbyseb a gyhoeddwyd yn y wasg ac amlinellwyd i'r Awdurdod y gwahaniaethau rhyngddynt. Adroddwyd bod y Panel, ar ôl proses o astudio'r tendrau, cynnal cyfweiliadau a gofyn am fanylion ysgrifenedig pellach, wedi penderfynu y dylid cynnig y cytundeb i gonsortiw m Sefydliad Thomson, Prifysgol Cymru Aberystwyth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Wrth i'r mater hwn gael ei godi, datganodd y Cadeirydd, Elan Closs Stephens, ddiddordeb yn sgil ei chyflogaeth gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth, a chadarnhaodd nad oedd wedi cymryd unrhyw ran yn y broses uchod.

Drafft Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 1999

Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth fanwl ar y testun drafft a roddwyd ger ei bron ar gyfer Adroddiad Blynyddol 1999 ynghyd â'r cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn honno. Cytunwyd y cynnwys a'r cyfrifon. Bwriedir cyhoeddi'r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ym mis Mehefin.

Cynllunio Corfforaethol

Derbyniodd yr Awdurdod ddau adroddiad mewn perthynas â chynllunio corfforaethol. Adroddodd y cyntaf ar y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn Cynllun Corfforaethol 2000 yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn. Amlinellodd yr ail adroddiad rai rhagdybiaethau polisi i'r Aelodau eu hystyried fel sail i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2001-2005. Nododd Aelodau'r Awdurdod y cynnydd da a wnaethpwyd hyd yn hyn ar Gynllun 2000 a phenderfynwyd y dylid cynnal trafodaeth bellach ar y rhagdybiaethau polisi ar gyfer 2001-2005 yn eu cyfarfod nesaf.

Materion Eraill

Fe wnaeth yr Awdurdod hefyd drafod a nodi adroddiadau ar:

- gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio
- berfformiad rhaglenni S4C
- adroddiad chwarterol ar weithgareddau S4C Masnachol
- waith y Grwp Cydymffurfiaeth
- gwynion
- sefyllfa ariannol S4C
- dreuliau teithio.

Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus nesaf Awdurdod S4C am 7.00 pm, ddydd Iau, 25 Mai 2000, yng nghanolfan Celtica, Machynlleth. Cynhelir ei gyfarfod busnes ar y diwrnod canlynol, hefyd ym Machynlleth.